



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

## **Diogelwch Cronfeydd Dŵr yng Nghymru Dechrau ar Atodlen 4 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**

### **Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad**

*Fy enw:* Adrian Philpott, Prif Ymgynghorydd – Perygl Llifogydd, yn gyfrifol i orfodaeth Deddf Cronfeydd Dŵr (y Ddeddf) yng Nghymru.

*Sefydliad:* Cyfoeth Naturiol Cymru

*E-bost / ffôn:* [adrian.philpott@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:adrian.philpott@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) / 02920 466056

*Cyfeiriad:* Tŷ Cambria, 29 Newport Road, Caerdydd, CF24 0TP

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddwy swyddogaeth o dan y Ddeddf:

- Ni yw'r *awdurdod gorfodi*. Daeth y swyddogaeth oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd pan sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru fis Ebrill 2013.
- Ni yw'r *ymgymerwyr* (terminoleg gyfreithiol y Ddeddf) a ni sy'n gyfrifol am sicrhau fod cronfeydd dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n dod o dan y Ddeddf yn cydymffurfio â'i darpariaethau.

### **Cwestiwn Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu dechrau ar holl waith Atodlen 4 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar unwaith. Byddai hynny'n golygu gostwng y trothwy ac y byddai pob cronfa ddŵr fawr wedi'i chodi sy'n dal mwy na 10,000 metr ciwbig o ddŵr yn cael ei chynnwys.

### **Ydych chi'n cytuno gyda'r dull arfaethedig o ddechrau?**

Ydwyf – gweler isod

### **Os 'nac ydwyf', rhowch fanylion pam a sut y byddwch yn cynnig dechrau.**

Amherthnasol

## Ein Hymateb i'r Ymgynghoriad

Rydym yn cefnogi'r dull arfaethedig o ddechrau am y rhesymau canlynol.

Byddai gostwng trothwy'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 (y Ddeddf) yn golygu y byddai nifer o strwythurau nad oes wybodaeth ar gael yn eu cylch yn cael eu rheoleiddio. Bydd hynny'n effeithio ar yr ymgwymerwyr (terminoleg cyfreithiol y Ddeddf) presennol yn ogystal ag ar berchnogion a gweithredwyr 'newydd' sy'n anghyfarwydd ar hyn o bryd â'r Ddeddf.

Diben Atodlen 4, Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yw cyflwyno dull sy'n rhoi mwy o bwyslais ar asesiad risg o dan y Ddeddf a dylai'r ffordd y bwriedir gweithredu'r ddeddfwriaeth gefnogi'r egwyddor hwn. Dylai hyrwyddo ac annog perchnogion i ddatgelu'r hyn a allai fod yn gronfeydd dŵr mawr wedi'u codi 'newydd' ac i ofyn am gyngor ac arweiniad oddi wrthym ni.

Mae'r dull a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn bodloni'r ddau brawf hyn.

- Mae'n cefnogi dull sy'n rhoi mwy o bwyslais ar asesiad risg. Mae'r perygl mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd yn debycach o godi o'r cronfeydd anhysbys a heb eu rheoleiddio sy'n dal mwy na 10,000m<sup>3</sup> o ddŵr nac o'r cronfeydd sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Mae hefyd yn darparu'r drefn y gallwn ni ei defnyddio i ddynodi ar unwaith y cronfeydd dŵr hynny lle mae'r perygl mwyaf pe byddem yn bryderus ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth ac y byddai angen gwneud felly er budd diogelwch y cyhoedd.
- Bydd yn gosod gofyniad ar ymgwymerwyr i gofrestru'u strwythurau. Mae hynny, gyda'r gofyniad cymharol ysgafn o ran yr wybodaeth y bydd yn rhaid ei gael ar y dechrau, yn hwyluso ac yn annog perchnogion i ddatgelu'u cronfeydd dŵr a gofyn am gyngor ac arweiniad.

Bydd gweithredu Atodlen 4 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cynyddu ein cyfrifoldebau'n sylweddol fel awdurdod gorfodi o dan y Ddeddf ac fel rheolwr a gweithredwr cronfeydd dŵr rheoledig o dan y Ddeddf.

Ar hyn o bryd mae yna 203 o gronfeydd mawr wedi'u codi sy'n dal mwy na 25,000m<sup>3</sup> yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif y gallai gostwng y trothwy i 10,000m<sup>3</sup> ddod â tua 200 yn rhagor o gronfeydd dŵr o dan y Ddeddf. Ni fydd pob un o'r rhain yn cael eu dynodi'r risg uchel, ond bydd pob un yn cael ei rheoleiddio rywfaint gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr awdurdod gorfodi.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn gyfrifol, fel perchennog / rheolwr o dan y Ddeddf, am 9 cronfa ddŵr fawr wedi'u codi. Rydym yn amcangyfrif y gallai hynny gynyddu i tua 35 ar ôl gostwng y trothwy i 10,000m<sup>3</sup>.

**Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch yma:** Rydym yn fodlon i'n hymateb cael ei gyhoeddi.

**Adrian Philpott – Prif Ymgynghorydd – Perygl Llifogydd  
12 Awst 2014**